Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd

# Cymraeg

## *Lefelau Sgiliau*

Cymraeg



# *Lefelau sgiliau* Cymraeg

**Mae lefelau iaith Met Caerdydd yn cyfateb i'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer Ieithoedd (CEFR). Cysylltwyd cymwysterau Cymraeg i Oedolion â'r Fframwaith yn 2014.**

| Lefel iaith | Lefel/cymhwyster Cymraeg i oedolion |
|---|---|
| **A0 - Dim sgiliau** | Amherthnasol |
| **A1 - Dechreuwr** | Mynediad |
| **A2 - Defnyddiwr sylfaenol** | Sylfaen |
| **B1 - Defnyddiwr canolradd** | Canolradd |
| **B2 - Defnyddiwr canolradd uwch** | Uwch |
| **C1 - Defnyddiwr rhugl** | Hyfedredd |
| **C2 - Meistrolaeth** | Uwch nag unrhyw lefel/gymhwyster Cymraeg i oedolion |

Darparwyd disgrifydd byr ar gyfer pob lefel. Dylid gwneud asesiad o lefelau iaith yn seiliedig ar y disgrifyddion sgiliau yn y tablau isod yn hytrach nag unrhyw gymhwyster CBAC, gan fod y graddau a enillwyd a'r amser sydd wedi mynd heibio ers ennill y cymwysterau hynny'n amrywio o berson i berson.

# Gwrando

| Lefel iaith a disgrifydd | Disgrifyddion sgiliau |
|---|---|
| **A0 - Dim sgiliau**<br>Methu deall na chyfathrebu yn Gymraeg. | • Dim sgiliau. |
| **A1 - Dechreuwr**<br>Yn gallu deall a defnyddio dywediadau cyfarwydd bob dydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn Gymraeg. | • Yn gallu deall mynegiadau pob dydd, ac ymadroddion syml iawn os yw'r siaradwr yn siarad yn araf.<br>• Yn gallu deall sgyrsiau am wybodaeth bersonol syml, e.e. ble mae rhywun yn byw, gweithio, beth maen nhw'n hoffi ei wneud, beth wnaethon nhw.<br>• Yn gallu dyfalu beth fydd rhywun yn ei ddweud pan fyddan nhw'n rhoi gwybodaeth am ddigwyddiadau, fel amser a lleoliad. |
| **A2 - Defnyddiwr sylfaenol**<br>Yn gallu delio â gwybodaeth gyffredin a syml a chyfathrebu mewn Cymraeg sylfaenol. | • Yn gallu deall pan fydd pobl yn siarad am sefyllfaoedd pob dydd, e.e. gwybodaeth bersonol, gwaith, beth maen nhw wedi ei wneud neu beth fasen nhw'n ei wneud, cyhyd â'u bod yn siarad yn araf.<br>• Yn gallu deall pan fydd pobl yn gofyn i chi neu rywun arall wneud rhywbeth, a phan fyddan nhw'n gofyn am gynlluniau yn y dyfodol, e.e. am gyfarfod. |
| **B1 - Defnyddiwr canolradd**<br>Yn gallu cyfathrebu, i lefel gyfyngedig, yn Gymraeg am bethau sy'n gyfarwydd a/neu'n gysylltiedig â gwaith. | • Yn gallu deall gwybodaeth sy'n cael ei rhoi am bynciau pob dydd, neu pan fydd pethau'n ymwneud â'r gwaith yn cael eu trafod, e.e. mewn sgwrs, neu mewn cyfarfod grŵp bach.<br>• Yn gallu deall y brif neges a'r manylion, os yw'r bobl yn siarad yn glir, e.e. wrth glywed hysbysiadau neu wrth wrando ar fwletin newyddion. |
| **B2 - Defnyddiwr canolradd uwch**<br>Yn gallu mynegi fy hun yn Gymraeg ar ystod o bynciau a deall y rhan fwyaf o sgwrs â siaradwr brodorol. | • Yn gallu dilyn y rhan fwyaf o sgyrsiau a thrafodaethau, hyd yn oed am bynciau sy'n anghyfarwydd i chi.<br>• Yn gallu deall y rhan fwyaf o raglenni teledu a radio ar gyfer siaradwyr iaith gyntaf, oni bai eu bod yn siarad ag acen gref, anghyfarwydd. |
| **C1 - Defnyddiwr rhugl**<br>Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn Gymraeg. | • Yn gallu dilyn pob sgwrs a thrafodaeth rhwng eraill yn hawdd, ar bob math o bynciau.<br>• Yn gallu deall pob math o Gymraeg llafar, gan gynnwys darlithiau neu drafodaethau cymhleth. |
| **C2 - Meistrolaeth**<br>Yn gallu cyfathrebu'n rhugl ar faterion cymhleth ac arbenigol yn Gymraeg. | • Yn gallu deall unrhyw fath o Gymraeg llafar yn ddidrafferth, boed yn fyw neu wedi'i ddarlledu, hyd yn oed pan gaiff ei gyflwyno ar gyflymder brodorol cyflym, ar yr amod bod gen i rywfaint o amser i ymgyfarwyddo â'r acen. |

# Darllen

| Lefel iaith a disgrifydd | Disgrifyddion sgiliau |
|---|---|
| **A0 - Dim sgiliau**<br>Methu deall na chyfathrebu yn Gymraeg. | • Dim sgiliau. |
| **A1 - Dechreuwr**<br>Yn gallu deall a defnyddio dywediadau cyfarwydd bob dydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn Gymraeg. | • Yn gallu deall brawddegau byr iawn, ac yn gallu dyfalu beth mae rhai hysbysiadau yn ei feddwl.<br>• Yn gallu deall testunau byr lle mae pobl yn rhoi gwybodaeth syml amdanynt eu hunain neu eraill.<br>• Yn gallu cael hyd i fanylion fel arfer, fel amserau a phrisiau, mewn hysbysebion neu hysbysiadau. |
| **A2 - Defnyddiwr sylfaenol**<br>Yn gallu delio â gwybodaeth gyffredin a syml a chyfathrebu mewn Cymraeg sylfaenol. | • Yn gallu deall negeseuon am bethau bob dydd, a rhai llythyron neu negeseuon e-bost syml iawn, e.e. yn gofyn am rywbeth, neu'n gofyn i basio neges ymlaen.<br>• Yn gallu deall testunau byr neu lyfrau syml iawn, e.e. llyfrau i blant. |
| **B1 - Defnyddiwr canolradd**<br>Yn gallu cyfathrebu, i lefel gyfyngedig, yn Gymraeg am bethau sy'n gyfarwydd a/neu'n gysylltiedig â gwaith. | • Yn gallu deall erthyglau syml uniongyrchol am bynciau o ddiddordeb pob dydd, neu'n ymwneud â'r gwaith.<br>• Yn gallu dyfalu beth mae gair yn ei feddwl o'r cyd-destun, pan fydd y pwnc yn gyfarwydd.<br>• Yn gallu deall y rhan fwyaf o negeseuon e-bost a dogfennau sy'n ymwneud â gwaith. |
| **B2 - Defnyddiwr canolradd uwch**<br>Yn gallu mynegi fy hun yn Gymraeg ar ystod o bynciau a deall y rhan fwyaf o sgwrs â siaradwr brodorol. | • Yn gallu deall y rhan fwyaf o ohebiaeth, a sganio trwy destunau hir i gael hyd i fanylion.<br>• Yn gallu deall y rhan fwyaf o erthyglau papur newydd ac adroddiadau sydd wedi'u bwriadu ar gyfer siaradwyr iaith gyntaf, gyda chymorth geiriadur.<br>• Yn gallu deall nofelau a thestunau eraill, oni bai eu bod wedi eu hysgrifennu mewn arddull ffurfiol neu lafar iawn. |
| **C1 - Defnyddiwr rhugl**<br>Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn Gymraeg. | • Yn gallu darllen a deall bron pob testun ysgrifenedig yn hawdd, gan droi weithiau at eiriadur.<br>• Yn gallu darllen testunau hir, e.e. adroddiadau, erthyglau, i gael hyd i fanylion perthnasol a deall bron pob math o ysgrifennu, e.e. ffurfiol neu anffurfiol. |
| **C2 - Meistrolaeth**<br>Yn gallu cyfathrebu'n rhugl ar faterion cymhleth ac arbenigol yn Gymraeg. | • Yn gallu darllen bron pob ffurf ar yr iaith ysgrifenedig yn ddidrafferth gan gynnwys testun haniaethol neu gymhleth o ran strwythur neu iaith (e.e. llawlyfrau, erthyglau arbenigol a gweithiau llenyddol). |

# Siarad

| Lefel iaith a disgrifydd | Disgrifyddion sgiliau |
|---|---|
| **A0 - Dim sgiliau**<br>Methu deall na chyfathrebu yn Gymraeg. | • Dim sgiliau. |
| **A1 - Dechreuwr**<br>Yn gallu deall a defnyddio dywediadau cyfarwydd bob dydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn Gymraeg. | • Yn gallu defnyddio mynegiadau pob dydd cyfarwydd, e.e. cyfarchion, diolch.<br>• Yn gallu ynganu enwau lleoedd ac enwau pobl.<br>• Yn gallu siarad am bethau personol syml mewn sefyllfa anffurfiol, e.e. diddordebau, teulu, gwaith, beth wnaethoch chi ddoe.<br>• Yn gallu siarad am bynciau syml, e.e. y tywydd, amser, prisiau. |
| **A2 - Defnyddiwr sylfaenol**<br>Yn gallu delio â gwybodaeth gyffredin a syml a chyfathrebu mewn Cymraeg sylfaenol. | • Yn gallu cynnal sgwrs syml â rhywun arall am bynciau pob dydd cyffredin, os yw'r siaradwr arall yn helpu.<br>• Yn gallu gofyn ac ateb cwestiynau am bynciau cyfarwydd, e.e. gwaith, diddordebau, hoffterau, pethau sydd wedi digwydd neu gynlluniau yn y dyfodol. |
| **B1 - Defnyddiwr canolradd**<br>Yn gallu cyfathrebu, i lefel gyfyngedig, yn Gymraeg am bethau sy'n gyfarwydd a/neu'n gysylltiedig â gwaith. | • Yn gallu cynnal sgwrs estynedig â siaradwr rhugl am bwnc cyfarwydd, e.e. diddordebau neu'r gwaith.<br>• Yn gallu mynegi barn a chyfnewid gwybodaeth am ystod o bynciau sy'n ymwneud â bywyd pob dydd, e.e. diddordebau, teithio, neu bynciau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r gwaith. |
| **B2 - Defnyddiwr canolradd uwch**<br>Yn gallu mynegi fy hun yn Gymraeg ar ystod o bynciau a deall y rhan fwyaf o sgwrs â siaradwr brodorol. | • Yn gallu siarad yn hyderus â siaradwyr rhugl am bynciau cyfarwydd sy'n ymwneud â bywyd pob dydd neu waith.<br>• Yn gallu mynegi barn, cymryd rhan mewn sgwrs, a siarad yn helaeth am bynciau cyffredin, e.e. mewn cyfarfod, neu mewn sefyllfa un-i-un. |
| **C1 - Defnyddiwr rhugl**<br>Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn Gymraeg. | • Yn gallu mynegi fy hun yn llawn ac yn fanwl, hyd yn oed wrth drafod materion cymhleth.<br>• Yn gallu addasu arddull fy iaith yn ôl y gynulleidfa, e.e. wrth siarad mewn cyd-destun ffurfiol neu wrth siarad â chydweithwyr.<br>• Yn gallu siarad yn helaeth am fater cymhleth, cyflwyno dadleuon, ac arwain y drafodaeth. |
| **C2 - Meistrolaeth**<br>Yn gallu cyfathrebu'n rhugl ar faterion cymhleth ac arbenigol yn Gymraeg. | • Yn gallu cymryd rhan mewn unrhyw sgwrs neu drafodaeth yn ddidrafferth ac yn gyfarwydd iawn â phriod-ddulliau ac ymadroddion llafar.<br>• Yn gallu mynegi fy hun yn rhugl a chyfleu arlliwiau manylach o ystyr yn fanwl gywir. Os byddaf yn cael problem, gallaf ailfeddwl ac ailstrwythuro o gwmpas yr anhawster mor rhwydd, prin fod pobl eraill yn ymwybodol ohono.<br>• Yn gallu cyflwyno disgrifiad neu ddadl glir sy'n llifo'n rhwydd mewn arddull sy'n briodol i'r cyd-destun a chyda strwythur rhesymegol effeithiol sy'n helpu'r derbynnydd i sylwi ar bwyntiau arwyddocaol a'u cofio. |

# Ysgrifennu

| Lefel iaith a disgrifydd | Disgrifyddion sgiliau |
|---|---|
| **A0 - Dim sgiliau**<br>Methu deall na chyfathrebu yn Gymraeg. | • Dim sgiliau. |
| **A1 - Dechreuwr**<br>Yn gallu deall a defnyddio dywediadau cyfarwydd bob dydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn Gymraeg. | • Yn gallu ysgrifennu ymadroddion neu frawddegau syml iawn amdanaf fi fy hun neu eraill.<br>• Yn gallu trosglwyddo negeseuon syml neu wneud cais syml, e.e. trwy e-bost. |
| **A2 - Defnyddiwr sylfaenol**<br>Yn gallu delio â gwybodaeth gyffredin a syml a chyfathrebu mewn Cymraeg sylfaenol. | • Yn gallu ysgrifennu nodyn byr at ffrind neu gydweithiwr yn gofyn am rywbeth, yn diolch iddynt neu egluro rhywbeth, e.e. absenoldeb o'r gwaith.<br>• Yn gallu ysgrifennu testun byr am bwnc cyfarwydd, e.e. profiad personol, neu brofiad sy'n ymwneud â'r gwaith. |
| **B1 - Defnyddiwr canolradd**<br>Yn gallu cyfathrebu, i lefel gyfyngedig, yn Gymraeg am bethau sy'n gyfarwydd a/neu'n gysylltiedig â gwaith. | • Yn gallu ysgrifennu llythyr am y rhan fwyaf o bynciau, gofyn am bethau, rhoi esboniadau, disgrifio profiadau, gwahodd pobl, neu drefnu digwyddiadau.<br>• Yn gallu ysgrifennu'n eithaf cywir am y rhan fwyaf o bynciau, e.e. sy'n ymwneud â diddordebau neu'r gwaith. |
| **B2 - Defnyddiwr canolradd uwch**<br>Yn gallu mynegi fy hun yn Gymraeg ar ystod o bynciau a deall y rhan fwyaf o sgwrs â siaradwr brodorol. | • Yn gallu ysgrifennu erthygl, adolygiad neu adroddiad byr am amrywiaeth o bynciau cyffredinol eu natur, neu sy'n ymwneud â'r gwaith.<br>• Yn gallu ysgrifennu testunau manwl sydd wedi ei strwythuro'n dda, sy'n briodol i'r darllenydd.<br>• Yn gallu ymateb yn gywir i'r rhan fwyaf o ohebiaeth gan gydweithwyr neu gysylltiadau allanol. |
| **C1 - Defnyddiwr rhugl**<br>Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn Gymraeg. | • Yn gallu ysgrifennu testunau, adroddiadau, erthyglau, cofnodion neu fathau eraill o destun estynedig mewn arddull sy'n briodol i'r darllenydd.<br>• Yn gallu ysgrifennu mewn Cymraeg ffurfiol neu anffurfiol fel y bo'r angen.<br>• Yn gallu ysgrifennu'n gywir iawn am ystod helaeth o bynciau. |
| **C2 - Meistrolaeth**<br>Yn gallu cyfathrebu'n rhugl ar faterion cymhleth ac arbenigol yn Gymraeg. | • Yn gallu ysgrifennu testun clir sy'n llifo'n rhwydd mewn arddull briodol.<br>• Yn gallu ysgrifennu llythyrau, adroddiadau neu erthyglau cymhleth sy'n cyflwyno achos â strwythur rhesymegol effeithiol sy'n helpu'r derbynnydd i sylwi ar bwyntiau arwyddocaol a'u cofio.<br>• Yn gallu ysgrifennu crynodebau ac adolygiadau o weithiau proffesiynol neu lenyddol. |

**Ffynonellau'r disgrifyddion sgiliau:**

**Lefelau A1-CI:** www.learnwelsh.cymru/media/3239/151217description_sgiliau.pdf

**Lefel C2:** www.eui.eu/documents/servicesadmin/languagecentre/cef.pdf

Cardiff Metropolitan University

Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Cymraeg